CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# Hysbysiad o Etholiad

## Cynhelir etholiad ar gyfer un Cynghorydd Tref ar gyfer Cyngor Tref Bae Colwyn (ward Rhos)
## Dyddiad yr Etholiad: Dydd Iau, 11 Ionawr 2024

### Cael papurau enwebu

1. Gellir cael papurau enwebu gan y Swyddog Canlyniadau un ai ym Modlondeb, Conwy, LL32 8DU neu'n electronig drwy etholiadol@conwy.gov.uk.

### Cyflwyno papurau enwebu

2. Rhaid cyflwyno'r papurau enwebu i'r Swyddog Canlyniadau ddim hwyrach na 4pm ddydd Mawrth, 12 Rhagfyr 2023.
3. Gellir danfon papurau enwebu yn bersonol i'r Swyddog Canlyniadau ym Modlondeb, Conwy, LL32 8DU rhwng 10am a 4pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwn (ac eithrio gwyliau banc) neu'n electronig yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad cyflwyno electronig isod.
4. Os bydd etholiad, cynhelir y bleidlais **dydd Iau, 11 Ionawr 2024**.

### Cofrestru Etholwyr

5. Rhaid i geisiadau i ychwanegu enw at y Gofrestr Etholwyr er mwyn pleidleisio yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU erbyn **dydd Iau, 21 Rhagfyr 2023**. Gellir cyflwyno ceisiadau ar-lein yn https://www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio.

### Pleidlais bost a thrwy ddirprwy

6. Dylai etholwyr a'u dirprwyon nodi bod yn rhaid i bob cais am bleidlais bost newydd, neu bob cais i ddiwygio neu ganslo pleidlais bost bresennol gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU erbyn **5pm, ddydd Gwener, 22 Rhagfyr 2023.** Mae hyn yn cynnwys etholwyr neu eu dirprwyon sy'n dymuno diwygio eu trefniadau presennol yn barhaol.
7. Rhaid i bob cais am bleidlais drwy ddirprwy yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU erbyn **5pm, ddydd Mercher, 3 Ionawr 2024.**
8. Rhaid i geisiadau i bleidleisio trwy ddirprwy brys yn yr etholiad hwn ar sail analluedd corfforol neu am resymau gwaith/gwasanaeth gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn **5pm, ddydd Iau, 11 Ionawr 2024**. Rhaid i'r analluedd corfforol fod wedi digwydd ar ôl 5pm **ddydd Mercher, 3 Ionawr 2024**. I ymgeisio ar sail gwaith/gwasanaeth neu coronafeirws, mae'n rhaid i'r unigolyn fod wedi dod i wybod na allant fynd i'r orsaf bleidleisio eu hunain ar ôl **5pm ddydd Mercher, 3 Ionawr 2024**.

### Datganiad cyflwyno'n electronig

9. Gellir cyflwyno papurau enwebu yn electronig yn unol â threfniadau a nodir yn y datganiad hwn -
   - **Gwiriadau anffurfiol** - dros e-bost at etholiadol@conwy.gov.uk. Rhowch 'GWIRIAD ANFFURFIOL – RHOS' yn nhestun y neges
   - **Cyflwyno enwebiadau** - ewch i www.conwy.gov.uk/enwebiadau a chyflwynwch y papur enwebu drwy'r porth ar-lein

   Sylwer:
   - Cyfrifoldeb yr ymgeiswyr yw sicrhau bod y Swyddog Canlyniadau yn cael y ffurflenni enwebu yn y ffordd gywir erbyn y dyddiadau cau.
   - Nid yw derbynneb electronig bod y neges wedi ei ddarllen gan y Swyddog Canlyniadau yn gadarnhad bod yr enwebiad yn ddilys. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn anfon hysbysiad i roi gwybod i ymgeiswyr am ei benderfyniad a yw eu henwebiad yn ddilys neu beidio.
   - Os bydd arnoch angen cymorth i gyflwyno eich enwebiadau'n electronig, cysylltwch ag etholiadol@conwy.gov.uk.

**Rhun ap Gareth, Swyddog Canlyniadau**

**Dyddiedig: Dydd Llun, 4 Rhagfyr 2023**
**Argraffwyd a chyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU**
**Rhif ffôn: 01492 576052**